Gweithdy *Writing Together*

29 - 31 Ionawr 2010

gyda Graham Hartill

Er ein bod yn tueddu i edrych ar 'sgwennu fel gweithgaredd unigol, bydd y cwrs yma yn gyfuniad o ysgrifennu'n unigol ac ysgrifennu gydag eraill. Sut y mae modd creu ysgrifennu cydweithredol? Sut y gellid caniatàu i leisiau unigol gael eu clywed mewn cerdd grŵp? Sut y gall grŵp o bobl ddarganfod llais cyffredin? Bydd y cwrs o ddiddordeb penodol i rai sy'n gweithio fel athrawon neu mewn galwedigaethau iechyd a gofal cymunedol, ond hefyd i unrhyw 'sgwenwyr sy'n awyddus i ddarganfod y mwynhâd o 'sgwennu fel gweithgaredd cymunedol. Drwy ddefnyddio gemau ysgrifennu ac ymarferiadau, byddwn yn archwilio amrywiaeth o themâu ac agweddau gan daro cip-olwg ar ganeuon, cerddi a storïau o ddiwylliannau gwahanol iawn ynghŷd ag ar enghreifftiau o ysgrifennu gorllewinol modern. Bydd y cwrs hwn hefyd yn rhoi rhagflas i unrhyw un sydd â diddordeb yn ein cwrs poblogaidd *Writing in Healthcare,* a gynhelir ym mis Tachwedd gyda Victoria Field a Graham Hartill.

GRAHAM HARTILL: Y mae wedi gweithio mewn sefydliadau sy'n amrywio o ysbytai i garchardai, canolfannau iechyd meddwl ac ysgolion cynradd ac uwchradd. Cyhoeddwyd ei gerddi detholedig, *Cennau's Bell* yn 2005 a'i lyfr diweddaraf *A Winged Head* gan Parthian Books yn 2006.

Côst: £245 (ystafell sengl) £215 (rhannu ystafell)

*** MAE HWN YN GWRS DRWY GYFRWNG Y SAESNEG ***